**Crynodeb Cwricwlwm Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug**

Cafodd gweledigaeth ein hysgol ei greu dros gyfnod o chwe mis drwy ymgynghori â holl randdeiliaid yr ysgol mewn holiadur crewyd yn benodol at y pwrpas.
Cynhaliodd yr ysgol gyfarfodydd HMS gyda'r holl staff a chyfarfodydd gyda'r llywodraethwyr i ystyried fersiwn ddrafft.
Drwy gyfarfodydd â disgyblion yr ysgol a chyfarfodydd ar-lein â llywodraethwyr cafodd drafft terfynol ei greu.
Rhennir ein gweledigaeth fel adborth â chymuned yr ysgol a'r gymuned leol drwy amrywiol gyfryngau gan gynnwys ein gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Derbyniwyd ac ystyriwyd nifer o ymatebion. Lansiwyd gweledigaeth ein hysgol ym mis Mehefin 2022 ac mae'n sail i bob rhan o fywyd yr ysgol.
Mae ein cwricwlwm yn ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth. Fel rhan o ddyluniad cwricwlwm:

- Ymgymerodd ein harweinwyr ysgol, ein hathrawon a'n cynorthwywyr dysgu â gwaith darllen ac ymchwil a mynychu dysgu proffesiynol ar y cwricwlwm.
- Cytunodd ein tîm staff cyfan ar nodweddion allweddol cyd-destun ein hysgol, disgyblion a chymuned i lywio'r dulliau a'r profiadau sydd fwyaf addas ar gyfer anghenion pob dysgwr yn ein hysgol ac ystyried y pedwar diben.
- Trwy arolygon, gofynnwyd i'r holl lywodraethwyr, staff, rhieni a disgyblion ystyried yr hyn y dylai pob disgybl ei wybod a gallu ei wneud, a pha werthoedd y dylent eu datblygu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.
- Gweithiodd yr holl staff gyda'i gilydd i nodi'r newidiadau gofynnol i'n diwylliannau, darpariaeth ac arferion presennol.
- Mae athrawon wedi gweithio gyda staff o'r ysgolion clwstwr i gefnogi ei gilydd wrth gynllunio ein cwricwlwm, gan sicrhau cynnydd ar hyd y continwwm 3-16.
- Mae pob dysgwr yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar ddechrau a diwedd themâu dysgu, gan roi llais i ddysgwyr yn yr hyn y maent yn ei ddysgu.
- Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd â rhieni am y cwricwlwm a ffyrdd y gallant gefnogi eu plentyn o fewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol
- Mae'r ysgol yn cydweithio ac yn ymgynghori ag ystod o ddarparwyr o'r gymuned leol ac ehangach ar ddarparu profiadau unigryw a chyfoethog i ddysgwyr gan gynnwys yn ymwneud â chrefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) ac addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith (CWRE).

Mae cwricwlwm ein hysgol yn addas ar gyfer pob dysgwr a bydd yn eu galluogi i wireddu'r pedwar diben. Derbyniwyd mewnbwn staff, llywodraethwyr a rhieni yn y broses o ddylunio

Cwricwlwm leol, cenedlaethol a byd eang sy'n unigryw i ni yn Ysgol Rhyd y Grug. Mae'n ystyried ac yn ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau unigryw sy'n cyflwyno eu hunain i unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn ein hysgol. Fe fydd cwricwlwm ein hysgol yn eang a chytbwys ac yn cynnwys cyfleoedd dysgu o fewn ac ar draws pob un Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'n cwmpasu'r cysyniadau yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn darparu cynnydd priodol yn unol ag egwyddorion cynnydd. Mae hefyd yn cyd-fynd â gofynion gorfodol o addysgu Cymraeg, Saesneg a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) a'r elfennau gorfodol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh). Mae sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi'u hymwreiddio drwy'r cwricwlwm. Bydd ein Cwricwlwm yn cymryd sylw o'r effaith ar iechyd meddwl a lles emosiynol disgyblion. Bydd unrhyw benderfyniad yn rhoi ystyriaeth bod lles yn greiddiol ac yn ymblethu i'r cynllunio. Darperir gefnogaeth i ddisgyblion yn ôl yr angen. Mae ein staff yn ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn hefyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac yn plethu'r gofynion i mewn i'n Cwricwlwm.

Credwn bod cynnydd ac asesu yn allweddol i sicrhau ein bod yn cyflawni gweledigaeth ein hysgol. Yn sail i gwricwlwm ein hysgol mae'r egwyddorion cynnydd mandadol sy'n disgrifio yr hyn mae cynnydd yn ei olygu wrth i ddysgwyr wneud cynnydd a'r galluoedd a'r ymddygiadau y bydd ein staff yn ceisio'u cefnogi, waeth beth fo cam datblygiad y dysgwr. Caiff ein trefniadau asesu eu llywio gan yr egwyddorion cynnydd hyn. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu ar sail tystiolaeth i alluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol e.e.Tracio trwy system Taith 360, cynnal wythnosau asesu mewnol a gyda phrofion cenedlaethol, dadansoddi data yn sgil hynny a chyfarfodydd Adolygu Dysgu i benderfynu ar gamau nesaf a phennu grwpiau targed. Rydym yn sicrhau bod ein prosesau yn nodi dysgwyr sydd angen cymorth neu her bellach ac yn darparu gwybodaeth ansoddol gyfoethog i ni er mwyn llywio'r camau nesaf mewn dysgu ar gyfer unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae ein trefniadau asesu yn sicrhau ymgysylltiad gweithredol rhwng dysgwyr ac athrawon ac mae'n seiliedig ar fyfyrio parhaus ar leoliad dysgwr, beth yw ei gamau nesaf a beth sydd ei angen i'w gefnogi i gyflawni'r rhain.

Mae'r broses o ddylunio cwricwlwm yn broses barhaol felly bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ein dysgwyr a bodloni gweledigaeth ein hysgol. Yn dilyn gweithdrefnau hunan-werthuso cadarn trwy'r map monitro a hunan werthuso drwy gydol y flwyddyn fe fydd ein gweithdrefnau yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n gyson.Rhydd hyn gyfle i ni arfarnu a llywio ein dealltwriaeth o effeithiolrwydd ein cwricwlwm a'r adolygu gofynnol. Byddwn yn gweithio o fewn ein hysgol, ar draws y clwstwr ac mewn partneriaeth â llywodraethwyr, y consortia rhanbarthol, yr awdurdod lleol, a'n partneriaeth AGA (Addysg Gynnar Athrawon) i ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd ac i sicrhau continwwm dysgu 3-16 o ansawdd uchel i bawb.

**Curriculum Summary for Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug**

Our school's vision was created over a six-month period in consultation with all the school's stakeholders in a specially created questionnaire.
The school held INSET meetings with all staff and meetings with governors to consider a draft version.
Meetings with pupils at the school and online meetings with governors resulted in a final draft. The vision was shared as feedback with the school and local community through various media including our social media accounts. A number of responses were received and considered. Our school vision was launched in June 2022 and underpins all aspects of school life.
Our curriculum enables us to realize our vision. As part of curriculum design:

- Our school leaders, teachers and teaching assistants undertook reading and research and attended professional curriculum teaching.
- Our whole staff team agreed the key features of our school, pupil and community context to inform the approaches and experiences most suited to the needs of all learners in our school and considered the four purposes.
- Through surveys all governors, staff, parents and pupils were asked to consider what each pupil should know and be able to do, and what values they should develop during their time at school.
- All staff worked together to identify the required changes to our current cultures, provision and practices.
- Teachers have worked with staff from the cluster schools to support each other in planning our curriculum, making progress along the 3-16 continuum.
- All learners engage in discussions at the beginning and end of learning themes, giving learners a voice in what they learn.
- The school regularly shares information with parents about the curriculum and ways in which they can support their child within and outside the school environment
- The school collaborates and consults with a range of providers from the local and wider community on providing learners with unique and enriching experiences including relating to religion, values and ethics (RVE) and careers education and work-related experiences.

Our school curriculum is suitable for all learners and will enable them to fulfill the four purposes. We received the input of staff, governors and parents in the process of designing a local, national and global Curriculum unique to us at Ysgol Rhyd y Grug. It considers and responds to the unique opportunities and challenges that present themselves to individuals and groups of

learners in our school. Our school curriculum will be broad and balanced and include learning opportunities within and across all Areas of Learning and Experience. It covers the concepts in the statements of what is important and provides appropriate progress in line with the principles of progress. It also complies with the mandatory requirements of teaching Welsh, English and Religion, Values and Ethics (RVE) and the mandatory elements of Relationships and Sexuality Education (RSE). Cross-curricular skills of literacy, numeracy and digital competence are embedded throughout the curriculum. Our Curriculum will take into account the impact on pupils' mental health and emotional wellbeing. Any decision will take into account that well-being is at the heart and intertwined with planning. Support is provided for pupils as required. Our staff are aware of the United Nations Convention on the Rights of the Child as well as the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities and integrate the requirements into our Curriculum.

We believe that progress and assessment are key to ensuring we achieve our school vision. Underpinning our school curriculum are the mandatory progression principles that describe what progress means as learners progress and the abilities and behaviors that our staff will seek to support, regardless of stage learner development. Our assessment arrangements are informed by these principles of progress. We use a variety of evidence-based assessment strategies to enable each individual learner to progress at an appropriate pace e.g. Tracking through the Taith 360 system, conducting internal assessment weeks and national tests, subsequent data analysis and Learning Review meetings to determine actions and set target groups. We ensure that our processes identify learners who need further support or challenge and provide us with qualitatively rich information to inform the next steps in learning for individuals and groups of learners. Our assessment arrangements ensure active engagement between learners and teachers and are based on ongoing reflection on a learner's placement, what their next steps are and what is needed to support them to achieve these.

Curriculum design is an ongoing process therefore our school curriculum will be kept under review to ensure that it meets the needs of our learners and the vision of our school. Following robust self-evaluation procedures through the monitoring and self-evaluation map throughout the year our procedures will be constantly evaluated and reviewed. This will allow us to evaluate and inform our understanding of the effectiveness of our curriculum and the required revision. We will work within our school, across the cluster and in partnership with governors, the regional consortia, the local authority, and our Early Teacher Education partnership to further develop a common understanding of progress and to ensure a 3-16 high quality continuum for everyone.